ECAD6008 2022-23

BA3

Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Darlithydd: Nia Wyn Evans

n.evans@pcydds.ac.uk

Darlith 2: 24.11.2022

Heddiw, byddwn ni'n …:

- ystyried **sut** mae datblygu sgiliau darllen disgyblion;
- **magu hyder** wrth gynllunio tasgau darllen ar gyfer disgyblion o bob oed;
- ystyried **pam** ydw i'n addysgu'r sgiliau hyn.

Mae gallu darllen yn dda yn hanfodol i bob plentyn. Mae'n allweddol i ddatblygu llawer o'u potensial. Mae peidio gallu darllen yn dda yn golygu na fydd plant yn cael budd o'r holl gyfleoedd y mae addysg dda yn ei gynnig. Maent mewn perygl o adael addysg ffurfiol gyda chymwysterau gwael a chael anhawster ym myd gwaith. Eto, mae un ym mhob pedwar o'n plant tlotaf yng Nghymru yn gadael yr ysgol gynradd yn methu darllen yn dda[1].



https://resource-centre-uploads.s3.amazonaws.com/uploads/barod_i_ddarllen1.pdf

Ffocysu ar ddatblygu sgiliau darllen:

Beth ydych chi wedi gweld ar waith yn yr ysgolion?
Trafodwch.




shutterstock.com · 74593420





Beth ydy ‘Tric a Chlic’?



Awdures: Eirian Lloyd Jones

Yn syml, mae **tric** mewn rhai geiriau ac mae angen **clic** y camera i gofnodi geiriau aml ddefnydd yn y cof.

Cynllun yw hwn sy’n addysgu sgiliau ffoneg synthetig sy’n sail i addysgu darllen ac sydd felly yn:

addysgu sain a ffurf llythrennau

addysgu strategaethau adeiladu i ddarllen a thorri geiriau i sillafu

annog rhuglder a mynegiant wrth ddarllen o’r dechrau un


cynnig dulliau addysgu rhyngweithiol

atgyfnerthu’r camau yn rheolaidd

symud yn gyflym o un cam i’r llall

PWYSIG Dylid sicrhau bod y disgyblion wedi cael profiadau o wrando, clywed ac arbrofi ag amrywiaeth o synau a seiniau gan ddatblygu eu sgiliau gwrando cyn dechrau gweithredu.

Beth sydd yn y cynllun?



Cofiwch rhaid parhau i ddarllen straeon gyda'r disgyblion yn rheolaidd.


Defnyddio'r cynllun …

Camau datblygiad	Sut mae'r cynllun yn gweithio?
SESIWN DOSBARTH CYFAN:	
1.	Sesiwn dosbarth – cyflwyno llythrennau, un llythyren ar y tro. Dysgu ynganu. Adnabod y llythyren. Ffurfio'r llythyren yn gywir, e.e. yn yr awyr.
2.	Defnyddio'r cardiau "Syllu ar y sêr" Dysgu darllen geiriau: m-a-m Disgyblion i ddangos 3 bys i gyfleu tri swn / tair sain
3.	Dysgu mwy o seiniau yn ddyddiol er mwyn medru darllen mwy o eiriau.

Dechrau arni …

https://youtu.be/VBoQgs3rsNw

Adnabod sain



Beth arall? Beth ydy'r camau?

Defnyddio'r cynllun …

Camau datblygiad	Sut mae'r cynllun yn gweithio?
SESIWN GRWP:	
1.	Atgyfnerthu sain y llythrennau. (Gellir defnyddio 'Cardiau Ymarfer Seiniau').
2.	Adeiladu geiriau 3 llythyren (cytsain-llafariad-cytsain) Trafod y sain gyntaf / sain olaf / sain ganol.
3.	Symud seiniau – e.e. car = cap
4.	Darllen a sillafu geiriau.
5.	Darllen grwp / pâr – Llyfrau geiriau Tric a Chlic
6.	Darllen stribedi.

Beth nesaf?

Darllen grwp



Cam 1



Cam 2



Cam 3





31 Yn y rhan fwyaf o leoliadau'r cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu medrau ffonolegol yn effeithiol drwy gymryd rhan mewn amrywiaeth gyfoethog o weithgareddau. Maent yn clywed seiniau llythrennau'n rheolaidd ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'r berthynas rhwng seiniau a llythrennau, yn aml drwy ddefnydd athrawon o raglen ffoneg. Mae dysgwyr yn datblygu eu medrau o ran adnabod sain a siâp llythrennau a geiriau unigol, er enghraifft drwy gysylltu'r seiniau a'r llythrennau sy'n rhan o'u henwau wrth roi eu bagiau ar eu bachau unigol yn y gilfach gotiau. Maent yn ymestyn eu gwybodaeth ffonolegol drwy gyfuno seiniau unigol i adeiladu geiriau, er enghraifft i ddarllen dyddiau'r wythnos ar gardiau fflach, a'u segmentu i sillafu. Mae bron pob dysgwr, yn enwedig dysgwyr o gartrefi di-Gymraeg, yn ymgyfarwyddo â seiniau'r llythrennau'n gyflym oherwydd orgraff dryloyw y Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio symudiadau syml ac yn canu caneuon cofiadwy i'w helpu i gofio a chymhwyso'r wybodaeth hon. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn creu cysylltiad rhwng yr iaith maent yn ei chlywed a'i siarad, a'r ymadroddion a'r brawddegau syml maent yn eu gweld yn gyson yn yr amgylchedd dysgu neu mewn llyfrau.



Bydd y ffocws ar …



Disgrifiad Dysgu:

Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.

Cam Cynnydd 1	Cam Cynnydd 2	Cam Cynnydd 3	Cam Cynnydd 4	Cam Cynnydd 5
Rwy'n gallu mwynhau rhannu llyfrau a deunyddiau darllen a'u trin fel darllenydd. Rwy'n gallu defnyddio unedau sain o amrywiol feintiau er mwyn dysgu darllen. Rwy'n gallu segmentu a chyfuno.	Rwy'n gallu defnyddio cyfatebiaethau graffem-ffonem wrth ddarllen. Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau i ddarllen gyda rhuglder cynyddol. Rwy'n gallu darllen gwahanol destunau gan ddefnyddio ystod o strategaethau i bennu ystyr.	Rwy'n gallu darllen testunau gan ddewis strategaethau sy'n rhoi'r mwyaf o gymorth i mi eu deall. Gallai'r strategaethau hyn gynnwys gweithio ar draws fy ieithoedd. Rwy'n gallu cymharu gwahanol bethau rwy'n eu darllen.	Rwy'n gallu darllen ystod o destunau gan ddewis strategaethau i'w deall nhw ac i wella fy mynegiant a chyfathrebu. Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau i grynhoi, syntheseiddio a dadansoddi gwybodaeth er mwyn deall testunau'n fanwl.	Rwy'n gallu defnyddio ystod o strategaethau i adnabod a rhagfynegi ystyr ar draws ystod eang o destunau, a thrwy hyn gyfoethogi fy mynegiant a chyfathrebu.

Cam Cynnydd 1	Cam Cynnydd 2	Cam Cynnydd 3	Cam Cynnydd 4	Cam Cynnydd 5
Rwy'n gallu deall fod perthynas un-i-un rhwng y gair ysgrifenedig a'r gair llafar. Rwy'n dechrau datblygu fy ngwybodaeth o gyfatebiaeth graffem-ffonem. Rwy'n dechrau adnabod a darllen geiriau aml eu defnydd. Rwy'n gallu defnyddio cyd-destun a lluniau i'm helpu i ddeall yr hyn rwyf yn ei ddarllen. Rwy'n dechrau darllen yn ôl yr hyn yr rwyf yn ei ysgrifennu.	Rwy'n gallu adnabod nodweddion gwahanol fathau o destunau a defnyddio iaith briodol i siarad amdanyn nhw. Rwy'n gallu darganfod a defnyddio gwybodaeth o wahanol ddeunyddiau rwyf yn eu darllen.			
	Rwy'n gallu dehongli ystyr o destun a delweddau.	Rwy'n gallu defnyddio sgiliau dehongli a dod i gasgliad er mwyn deall testunau, a gallu ystyried dibynadwyedd yr hyn yr wyf yn ei ddarllen.	Rwy'n gallu defnyddio sgiliau dehongli a dod i gasgliad i ddeall testunau mwy cymhleth, a gallu ystyried dibynadwyedd ac effaith yr hyn yr wyf yn ei ddarllen.	Rwy'n gallu defnyddio sgiliau dehongli a dod i gasgliad i fagu dealltwriaeth fanwl o destunau cymhleth ac rwy'n gallu gwerthuso dibynadwyedd, dilysrwydd ac effaith yr hyn yr wyf yn ei ddarllen.

Cam Cynnydd 1	Cam Cynnydd 2	Cam Cynnydd 3	Cam Cynnydd 4	Cam Cynnydd 5
Rwy'n gallu deall a defnyddio cysyniadau sylfaenol mewn iaith. Rwy'n ymwybodol o sut mae geiriau'n cael eu gwahanu gan fylchau. Rwy'n dechrau dod yn ymwybodol o sut mae prif lythrennau ac atalnodau llawn yn pennu ffiniau brawddegau.	Rwy'n gallu darllen ar goedd gyda mynegiant, gan roi sylw i atalnodi.	Rwy'n gallu gwrando a darllen i fagu dealltwriaeth o'r ffordd y mae gramadeg ac atalnodi'n effeithio ar ystyr.	Rwy'n gallu gwrando a darllen i ddatblygu fy nealltwriaeth o'r ffordd mae gramadeg ac atalnodi'n siapio brawddegau a thestunau cyflawn.	Rwy'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth o adeiladwaith geiriau, gramadeg gan gynnwys cystrawen, a threfn testunau i gefnogi fy nealltwriaeth o'r hyn rwy'n ei glywed a'i ddarllen.
Rwy'n dechrau gofyn ac ateb cwestiynau er mwyn deall yn well. Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld. Rwy'n gallu siarad am yr hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen neu'i weld, a mynegi barn syml.	Rwy'n gallu ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed, ei ddarllen a'i weld, gan ofyn cwestiynau a dangos fy nealltwriaeth.	Rwy'n gallu darllen gydag empathi i adnabod safbwyntiau gwahanol bobl ar bynciau amrywiol.	Rwy'n gallu darllen gydag empathi i adnabod safbwyntiau gwahanol bobl ar bynciau amrywiol, gan eu defnyddio i ffurfio fy nghasgliadau fy hun.	Rwy'n gallu darllen gydag empathi i barchu a gwerthfawrogi'n feirniadol bersbectif gwahanol bobl, gan ddefnyddio hyn i ffurfio fy nghasgliadau ystyriol fy hun.